*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Chwefror 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno, er gwybodaeth, yr amserlen arfaethedig ar gyfer llunio Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod, 2019/20.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer pennu a chyhoeddi amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2019/20 yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer llunio Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod, 2019/20.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella blynyddol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Rhaid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'r amcanion yn ymwneud â hi.

6 Rhaid i'r Awdurdod hefyd gyhoeddi amcanion llesiant tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nid yw'r Ddeddf yn dweud pa mor aml y mae'n rhaid i'r Awdurdod adolygu'r amcanion hyn heblaw fod rhaid iddo eu hadolygu fel rhan o'i broses flynyddol i adrodd yn eu cylch.

7 Ar ôl mabwysiadu amcanion llesiant tymor hir, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hyn.

8 Dan y ddwy gyfundrefn hon, ac yn unol â rheoliadau eraill megis y rhai a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae disgwyliad pendant y bydd yr Awdurdod yn cynnwys pobl eraill wrth gytuno ar ei amcanion. Nid oes rheolau llym ynglŷn â pha mor hir y dylai'r ymgynghoriadau cyhoeddus bara, ond fel arfer mae hyd at 12 wythnos yn cael ei ystyried yn gyfnod priodol yn y rhan fwyaf o achosion.

9 O ran sicrhau cyllid, mae'n ofynnol i'r Awdurdod, o dan Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995, gyflwyno amcangyfrif i'w awdurdodau cyfansoddol o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a hynny erbyn diwedd mis Rhagfyr, ac i gadarnhau'r union swm cyn 15 Chwefror.

**GWYBODAETH**

10 Mae'r amserlen arfaethedig ar gael yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol i gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid cadarnhau cyllideb 2018/19 erbyn canol mis Chwefror 2018. Mae'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2019/20 wedi'i chynnwys yn yr amserlen yn Atodiad 1. |
| Cyfreithiol | Cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn ymwneud â chynllunio ar gyfer gwella a llesiant. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawlia Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg priodol wrth iddynt gael eu datblygu. |
| Risgiau | Lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

ATODIAD 1

| DYDDIAD | CYFARFOD | CAM GWEITHREDU |
|---|---|---|
| 15/01/2018 | Gweithgor Cynllunio | Datblygu Cynllun Drafft yr Awdurdod ar gyfer 2019/20. |
| 05/02/2018 | Gweithgor Cynllunio | Datblygu Cynllun Drafft yr Awdurdod ar gyfer 2019/20. |
| 26/02/2018 | Gweithgor Cynllunio | Datblygu Cynllun Drafft yr Awdurdod ar gyfer 2019/20. |
| 05/03/2018 | Gweithgor Cynllunio | Cytuno ar argymhellion ar gyfer y Cynllun Drafft 2019/20 i'w hystyried gan y Panel Gweithredol ym mis Mai 2018. |
| 19/03/2018 | Awdurdod Tân ac Achub | Ystyried a chymeradwyo 4 x cynllun llesiant lleol (sy'n dod i rym o fis Mai 2018 ymlaen) a Chynllun yr Awdurdod ar gyfer 2018/19. |
| 14/05/2018 | Panel Gweithredol | Cael adroddiad gan y Gweithgor Cynllunio am Gynllun Drafft yr Awdurdod ar gyfer 2019/20.<br>Cymeradwyo cynigion ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |
| 18/06/2018 | Awdurdod Tân ac Achub | Cymeradwyo amcanion Cynllun Drafft 2019/20 ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |
| Gorffennaf 2018 | | Dechrau ar gyfnod o 12 wythnos o ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |
| 17/09/2018 | Awdurdod Tân ac Achub | Cymeradwyo asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2017/18, i'w gyhoeddi.<br>Cynnwys adolygiad o amcanion llesiant presennol yr Awdurdod. |
| Hydref 2018 | | Cau'r cyfnod o 12 wythnos o ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |
| 22/10/2018 | Panel Gweithredol | Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a chytuno ar amcanion drafft i'w hystyried gan yr ATA yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. |
| 17/12/2018 | Awdurdod Tân ac Achub | Cytuno ar gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20.<br>Cytuno ar amcanion drafft i'w hymgorffori yng Nghynllun Drafft yr ATA ar gyfer 2019/20. |
| Chwefror 2019 | Panel Gweithredol | Ystyried y drafft terfynol o Gynllun 2019/20 i'w gymeradwyo gan yr ATA yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. |
| 15/02/2019 | | Y diwrnod olaf i roi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth yw eu cyfraniadau ariannol ar gyfer 2019/20. |
| Mawrth 2019 | Awdurdod Tân ac Achub | Cymeradwyo'r drafft terfynol o'r Cynllun ar gyfer 2019/20, i'w gyhoeddi. |
| 31/03/2019 | | Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi Cynllun yr Awdurdod ar gyfer 2019/20. |